Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Beaumaris

**Maeshyfryd**
**Biwmares**
**LL58 8HL**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Beaumaris

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Beaumaris |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 46 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 27 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 9 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.3%) | 28.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 22.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 03/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 13/01/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 14/11/2022 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae bron bob un disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn ymfalchïo ynddi. Maent yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryder sydd ganddynt. Mae bron bob un disgybl yn gwrtais a meddylgar, yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion ac ymwelwyr. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae perthynas weithio agos a chefnogol i'w gweld rhwng y staff a'r disgyblion. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn addas, ac yn gyffredinol, maent yn darparu cefnogaeth briodol iddynt. Er hyn, ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, maent yn dueddol o or-arwain y dysgu sy'n cyfyngu ar annibyniaeth y disgyblion. Nid oes gan athrawon bob tro ddisgwyliadau digon uchel ynglŷn â beth mae'r disgyblion yn gallu cyflawni, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Ym mlynyddoedd is yr ysgol, mae staff yn cynllunio ystod o weithgareddau pwrpasol ac ysgogol sydd yn ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon trwyadl i wella medrau llythrennedd Cymraeg y disgyblion, yn enwedig eu medrau llafar. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar allu'r disgyblion i gyfathrebu mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn y Gymraeg. Yn ogystal, ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon effeithiol i ddatblygu medrau mathemateg disgyblion ac i gynnig cyfleoedd cyson iddynt ddatblygu eu medrau ar draws bob un o'r meysydd dysgu a phrofiad. O ganlyniad, cyfyngedig yw medrau rhifedd disgyblion.

Gyda chefnogaeth ddiweddar y consortiwm rhanbarthol, mae arweinwyr, gan gynnwys aelodau'r corff llywodraethol, yn dechrau datblygu dealltwriaeth addas o brif gryfderau'r ysgol a rhai o'r meysydd sydd angen eu gwella. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi monitro gwaith yr ysgol yn ddigon trwyadl neu wedi dwyn y staff i gyfrif am ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Yn ogystal, nid yw prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi mynd i'r afael â materion pwysig yn y ddarpariaeth, gan gynnwys argymhellion o'r arolygiad blaenorol. Er bod arweinwyr wedi dechrau rhoi gweithdrefnau ar waith, maent yn ddibynnol ar gefnogaeth allanol i weithredu ar flaenoriaethau gwella ac i fonitro cynnydd.

## Argymhellion

A1 Ymateb i'r pryderon iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â safle'r ysgol

A2 Datblygu cyfrifoldebau arweinyddol aelodau'r staff a'r llywodraethwyr fel eu bod yn gweithredu'n fwy strategol

A3 Gwella gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn adnabod holl feysydd gwella'r ysgol er mwyn codi safonau a chryfhau'r ddarpariaeth

A4 Codi safonau Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol, yn enwedig eu medrau llafar

A5 Cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm

A6 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, er mwyn datblygu'n ddysgwyr annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis fel arfer.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau llythrennedd Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol yn siarad Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd Saesneg. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg a'u medrau rhifedd yn ddigon cadarn erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ar gyfraniadau eraill yn briodol ac am gyfnodau estynedig. Mae llawer yn ymateb yn addas i gyfraniadau ei gilydd ac yn rhoi sylw ystyrlon i gyfarwyddiadau oedolion.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn adnabod patrymau iaith Cymraeg cyffredin yn addas, er enghraifft wrth drafod dyddiau'r wythnos ac wrth ddisgrifio'r tywydd. Er eu bod yn mwynhau sgwrsio wrth chwarae rôl yn yr ardaloedd dysgu ac yn ystod amseroedd chwarae a chinio, nid ydynt yn defnyddio Cymraeg fel rhan o'u chwarae. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, cyfyngedig yw cynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu medrau siarad Cymraeg. Nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn frwdfrydig, yn hyderus nac yn ddigon annibynnol. Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn drafod testunau sy'n gyfarwydd iddynt yn aeddfed yn Saesneg. Maent yn hapus i rannu eu syniadau a chynnig barn, er enghraifft wrth drafod a chymharu Cymru â gwledydd eraill sy'n rhan o Gwpan Pêl-droed y Byd.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn cael boddhad wrth wrando ar storïau Cymraeg a rhannu llyfr gyda ffrindiau; er enghraifft, maent yn siarad yn fyrlymus wrth gyfeirio at gymeriadau a thestun eu hoff lyfrau. Dros amser, maent yn datblygu strategaethau ffoneg Cymraeg addas i ddarllen testunau syml yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn Saesneg yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth addas. Maent yn disgrifio rôl cymeriadau mewn storïau, yn adrodd digwyddiadau'n dda ac yn gwneud rhagfynegiadau synhwyrol am beth allai ddigwydd nesaf. Maent yn defnyddio gwahanol ffynonellau yn llwyddiannus wrth ymchwilio i wybodaeth am bynciau cyfarwydd iddynt. Er hyn, nid yw medrau darllen Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi eu datblygu'n ddigonol, ac nid ydynt yn darllen testunau Cymraeg o'u gwirfodd. Yn ogystal, cyfyngedig yw uwch fedrau darllen disgyblion fel sgimio, trawsieithu a chrynhoi.

Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn gwneud marciau syml gan ddefnyddio ystod o offer pwrpasol yn yr ardaloedd tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Ym Mlwyddyn 1, mae llawer yn dechrau ffurfio llythrennau a geiriau cyfarwydd yn gywir, ac erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu brawddegau syml yn llwyddiannus. Mae mwyafrif disgyblion Blwyddyn 4 yn ysgrifennu at bwrpas yn y Gymraeg a Saesneg yn briodol. Mae hyn yn cynnwys ysgrifennu llythyr meddylgar at y ficer lleol, yn diolch am y cyfle i weld arch y dywysoges Gwenllian yn yr eglwys. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn cystrawennu'n eithaf cywir ac yn defnyddio ystod o

atalnodi gan gynnwys prif lythrennau, atalnod llawn a marc cwestiwn yn briodol. Er hyn, nid yw'r disgyblion bob amser yn cael amser i ailddrafftio eu gwaith gorffenedig. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn hyderus wrth ysgrifennu yn Saesneg ac mae hyn i'w weld yn safonau eu gwaith gorffenedig. Fodd bynnag, wrth ysgrifennu yn y Gymraeg, maent yn rhy ddibynnol ar gymorth athrawon wrth ysgrifennu darnau o waith estynedig.

Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau rhif. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o adnoddau gan gynnwys blociau, cownteri a chregyn i adio rhifau hyd at 30. Dros amser, maent yn ymestyn eu gwybodaeth i greu brawddegau rhif ar gyfer adio a thynnu. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth addas o siapiau 2 ddimensiwn a rhai o'u priodweddau. Ym mlynyddoedd hŷn yr ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o dablau lluosi ac yn dyblu rhifau cyfan. Maent yn defnyddio graffiau syml yn effeithiol i gywain gwybodaeth, er enghraifft wrth ddarganfod pellteroedd gwahanol wrthrychau sydd wedi eu taflu o gatapwlt. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ddisgyblion hŷn yr ysgol sy'n gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau mathemateg sylfaenol. Nid oes gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o ffracsiynau, rhifau degol na chanrannau a chyfyngedig yw eu dealltwriaeth o sut i gyfrifo gan ddefnyddio'r 4 gweithrediad mathemategol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau digidol. Mae llawer yn llwyddo i gyflwyno gwybodaeth ddigidol gan ddefnyddio ystod o raglenni yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn ymgorffori testun, graffeg ac ysgrifennu yn llwyddiannus yn eu cyflwyniadau ynglŷn ag ailgylchu plastig ac effaith llygredd yn yr Arctig. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn hyderus wrth ddefnyddio eu medrau digidol i gywain gwybodaeth, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth am farn rhieni am fanteision ac anfanteision adeiladu trydedd bont dros y Fenai.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau creadigol, er enghraifft drwy efelychu gwaith celf artistiaid lleol neu wehyddu patrymau Celtaidd amrywiol. Trwy'r cyfleoedd a gânt i chwarae amryw o offerynnau gan gynnwys drymiau, iwcalili a'r piano, maent yn datblygu medrau cerddorol yn effeithiol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn ymfalchïo ynddi. Maent yn teimlo'n gwbl ddiogel yno a gwyddant at bwy i droi am gyngor petai rhywbeth yn eu poeni. Maent yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryder sydd ganddynt. Mae bron bob un yn gwrtais a meddylgar, ac yn ymddwyn yn dda iawn gan ddangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion ac ymwelwyr. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac yn datblygu'n ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig. Maent yn cydweithio'n gytûn ac yn cadw ar dasg am gyfnodau estynedig, er nid ydynt bob tro'n dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu anawsterau yn eu gwaith. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau a chyflwyniadau oedolion ac yn gweithio'n gyson dda fel unigolion, mewn parau a grwpiau bychain. Yn ddiweddar, mae'r rhan fwyaf  o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r ychydig o gyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei

ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau gwneud dewisiadau am yr offer yr hoffent ei ddefnyddio o fewn yr ardaloedd dysgu, er enghraifft wrth greu clociau analog o ddeunyddiau naturiol yn yr ardal tu allan. Fel rhan o'r thema 'Gwarchod Biwmares a'r Blaned', penderfynodd y disgyblion hŷn gasglu sbwriel i'w ddefnyddio fel rhan o'u gwaith celf yn efelychu gwaith artist lleol. O ganlyniad, maent yn dangos lefelau da o gymhelliant a diddordeb yn eu gwaith. Er hyn, nid yw athrawon blynyddoedd hŷn yr ysgol bob amser yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Mae hyn yn llesteirio gallu'r disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am sut maent yn dysgu, er enghraifft wrth benderfynu sut i gyflwyno eu gwaith ysgrifenedig.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r adborth ar lafar a gânt gan staff. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio adborth yn effeithiol i wella eu gwaith, er enghraifft wrth weithio mewn grwpiau i drefnu rhifau i fyny at 12 er mwyn eu hadio ar gloc. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio'r adborth ar lafar yn briodol i ymateb i gamgymeriadau yn eu gwaith ar y pryd, er enghraifft wrth gywiro camsillafu neu wallau cystrawennu. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r adborth yn effeithiol i wella cynnwys eu gwaith ysgrifenedig a phrin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ailddrafftio eu gwaith. Yn ogystal, maent yn or-ddibynnol ar gymorth staff i ddatrys problemau gan olygu nad ydynt yn herio eu hunain cystal ag y gallent.

Yn ddiweddar, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i gyfrannu at rai agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion y cyngor ysgol yn trefnu gweithgareddau pwrpasol i godi ymwybyddiaeth yr ysgol gyfan o effaith negyddol bwlio, a'r cyngor lles yn codi arian at elusen lles meddyliol. Mae dealltwriaeth llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol o werthoedd moesol, cymdeithasol a chydraddoldeb yn datblygu'n briodol. Maent yn trafod yn aeddfed effaith negyddol hiliaeth ar gymdeithas gan gyfeirio'n briodol at eu gwaith wrth astudio bywyd Rosa Parks a Martin Luther King.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gwersi addysg gorfforol ac yn ymdrechu i drio bwydydd newydd fel rhan o'r ddarpariaeth cinio ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Yn ddiweddar, mae'r athrawon ym mlynyddoedd uwch yr ysgol yn dechrau cyd-gynllunio'n addas er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws rhai o'r meysydd dysgu a phrofiad. Er enghraifft, fel rhan o'u gwaith ar y Celtiaid, mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau celf a chreadigol trwy ddylunio a chreu mygydau Celtaidd o wahanol ddeunyddiau. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon effeithiol bob tro i sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu bob un o'r medrau. Ar draws yr ysgol, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon systematig i ddatblygu medrau Cymraeg y disgyblion. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar allu disgyblion i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hyderus mewn gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Yn ogystal, ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mathemateg a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn golygu nad yw athrawon yn datblygu'r ystod lawn o fedrau rhifedd i ddisgyblion hŷn yr ysgol.

Mae perthynas weithio agos a chefnogol rhwng y staff a’r disgyblion ar draws yr ysgol. Mae’r athrawon yn adnabod y disgyblion yn addas, ac maent yn darparu cefnogaeth briodol iddynt wrth iddynt weithio a rhyngweithio â’i gilydd. Fodd bynnag, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ddisgyblion, yn enwedig eu medrau llythrennedd, ac ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, eu medrau rhifedd. Mae athrawon yn y dosbarthiadau ar frig yr ysgol yn dueddol o or-arwain y dysgu ac nid ydynt bob amser yn gadael i ddisgyblion wneud dewisiadau am y ffordd y maent eisiau cyflwyno eu gwaith. Mae hyn yn cyfyngu ar allu’r disgyblion i wneud penderfyniadau ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a datblygu’n ddysgwyr annibynnol.

Mae’r athrawon yn dechrau cynllunio'n bwrpasol ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Lle mae’r addysgu ar ei orau, maent yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion lywio cyfeiriad y dysgu trwy gynnig syniadau ar ddechrau bob thema. Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu ystod addas o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu at wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gasglu barn rhieni am fanteision ac anfanteision adeiladu pont newydd dros yr afon Menai, cyn ysgrifennu testun perswâd. Mae gweithgareddau pwrpasol fel hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am hanes lleol gan gynnwys sut le oedd Ynys Môn yn ystod oes y Celtiaid a hanes tywysogion Cymru. Mae athrawon yn cyfoethogi’r cwricwlwm yn effeithiol gan ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ymweld â nifer o atyniadau lleol, gan gynnwys Melin Llynon i astudio tai crwn y Celtiaid. Mae’r profiadau hyn yn werthfawr wrth gyfoethogi gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hanes a diwylliant yr ardal leol. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu’n ddinasyddion byd-eang, er enghraifft drwy ddysgu am sut i edrych ar ôl yr amgylchedd a’r niwed mae plastig yn ei wneud i fywyd yn ein moroedd.

Ym mlynyddoedd is yr ysgol, mae’r athrawes wedi cydweithio’n effeithiol â staff ysgolion cyfagos i ddatblygu’r ardaloedd tu fewn a thu allan i’r ystafell dosbarth. Erbyn hyn, mae’r ardaloedd hyn yn ysgogol ac yn ennyn diddordeb bron bob disgybl. Mae’r ardal tu allan i’r ystafell dosbarth yn ddeniadol ac mae ystod dda o adnoddau effeithiol i datblygu medrau creadigol, cyfathrebu a cyd-chwarae disgyblion. Rhoddir cyfleoedd buddiol i’r disgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu, er enghraifft wrth benderfynu pa gynhwysion i’w defnyddio wrth greu te parti yn y gegin fwd. Er hyn, nid yw athrawon blynyddoedd uwch yr ysgol yn gwneud digon o ddefnydd o’r ardaloedd tu allan i’r ystafell ddosbarth i gyfoethogi’r ddarpariaeth ac i ddatblygu medrau’r disgyblion.

Nid yw gweithdrefnau’r ysgol o ran monitro a thracio cynnydd disgyblion yn ddigon effeithiol i adnabod safonau a chyrhaeddiad y disgyblion. Nid oes gan yr athrawon ddealltwriaeth ddigon cadarn o fedrau llythrennedd Cymraeg a rhifedd disgyblion. O ganlyniad, nid yw’r ddarpariaeth yn rhoi cefnogaeth bwrpasol er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu bob amser.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar a theuluol sy’n hyrwyddo ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn effeithiol. Mae’r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy’n bodoli rhwng y staff a’r disgyblion yn nodwedd gref o’r ysgol.

Mae staff yn cefnogi anghenion emosiynol, cymdeithasol a lles bron bob disgybl yn llwyddiannus drwy drawstoriad o weithgareddau pwrpasol. Er enghraifft, mae

athrawon yn cynnal sesiynau lles rheolaidd sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion drafod a mynegi barn am agweddau pwysig bywyd, fel datblygu parch a phwysigrwydd bod yn ffrind da i eraill. O ganlyniad, mae disgyblion yn dysgu gwerthoedd pwysig gan gynnwys empathi tuag at eraill, cyfeillgarwch a buddion cydweithio. Maent yn annog disgyblion i gadw'n heini yn effeithiol, er enghraifft trwy weithgareddau chwaraeon wythnosol. Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd  cadw'n ddiogel, er enghraifft drwy wersi ynglŷn â diogelwch y ffordd a defnydd diogel o'r rhyngrwyd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am eu cymuned leol a'i hanes, er enghraifft wrth ymweld â'r eglwys leol i weld arch y dywysoges Siwan fel rhan o'r thema am dywysogion Cymru. Mae'r rheithor ym ymweld â'r ysgol yn gyson, gan addysgu gwerthoedd moesol ac ysbrydol pwysig i'r disgyblion. O fewn y sesiynau, rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio am eu credoau eu hunain ac amser i drafod beth sy'n gwneud dinasyddion da mewn cymdeithas.

Yn ddiweddar, mae staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion leisio eu barn am y ddarpariaeth. Trwy'r cyngor ysgol a'r cyngor lles, rhoddir cyfleoedd priodol i ddisgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol a gwneud rhai penderfyniadau. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd yn sicrhau bod y disgyblion yn cael dylanwad digon cadarn ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth addas i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cynnwys y disgyblion yn y broses o greu proffiliau un tudalen unigol sydd yn cynnwys gwybodaeth bwysig am eu diddordebau a sut i edrych ar ôl eu lles. Mae'r pennaeth, sydd hefyd yn gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, yn olrhain cynnydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau unigol, a'u cynnydd o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol o ran eu medrau darllen a'u hanghenion lles.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant o ddiogelwch a lles disgyblion yn effeithiol. Mae gan y staff ymwybyddiaeth gadarn o brosesau diogelu'r ysgol ac mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i unrhyw achosion unigol. Maent yn cydweithio ag asiantaethau eraill yn effeithiol, lle bo'n briodol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant o wrth-fwlio ac mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i ddysgu am sut i gadw'n ddiogel. Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer sicrhau presenoldeb cyson disgyblion. Mae diogelwch cyffredinol adeiladau'r ysgol yn dda. Fodd bynnag, cyfeiriwyd yr arweinwyr at bryder am ddiogelwch safle'r ysgol yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn ddiweddar, mae gwaith y pennaeth o ran gosod arweiniad strategol cadarn i'r ysgol a gwella deilliannau disgyblion wedi cael ei effeithio'n negyddol gan gyfnod o ansefydlogrwydd staffio. Mae diffyg cydweithio ymysg rhai aelodau o staff a'u dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau arweiniol wedi amharu ar y gwaith o gyd-gynllunio a sicrhau datblygiad ym medrau'r disgyblion dros amser. O ganlyniad, nid yw arweinwyr wedi monitro gwaith yr ysgol a dwyn y staff i gyfrif am ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Nid yw arweinwyr yn sicrhau bod bob disgybl

yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, er enghraifft wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd Cymraeg, a'u medrau mathemateg a rhifedd, ar draws y cwricwlwm.

Mae'r pennaeth yn rhoi pwyslais mawr ar sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol. Mae ganddi ddyheadau uchel ar gyfer gwella ansawdd y ddarpariaeth i ddisgyblion yr ysgol.

Dros amser, nid yw arweinwyr wedi defnyddio prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant i wella elfennau pwysig o'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Er enghraifft, mae'r bron pob un o argymhellion yr arolygiad blaenorol yn parhau i fod yn faterion pwysig i'r ysgol, gan gynnwys gwella safonau Cymraeg a datblygu gallu arweinwyr i weithredu'n fwy strategol. Yn ddiweddar iawn, gyda chefnogaeth ddwys y consortiwm rhanbarthol, mae'r pennaeth wedi dechrau adnabod cryfderau a rhai o'r prif feysydd i'w gwella yn yr ysgol. Gyda chefnogaeth, mae hi wedi cychwyn gweithredu prosesau hunanwerthuso newydd gan fonitro'r ddarpariaeth o fewn gwersi a safonau'r dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys arfarnu safonau mathemateg a rhifedd trwy graffu ar waith y disgyblion a gwerthuso cynlluniau athrawon. Yn ogystal, mae'r staff dysgu yn cael cefnogaeth bwrpasol gan y consortiwm i ddatblygu elfennau pwysig o'r cynllun gwella ysgol. Mae hyn yn cynnwys arweiniad ar sut i gyd-gynllunio a chydweithio'n agosach er mwyn llunio darpariaeth sy'n cymhwyso'r holl fedrau yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Ar hyn o bryd, nid yw'r gweithdrefnau hyn wedi treiddio'n gadarn yn yr ysgol. Nid yw'r staff na'r llywodraethwyr yn rhan lawn o'r broses hunanwella ac nid yw effaith y cydweithio ymysg y staff yn dangos cynnydd yn neilliannau disgyblion. O ganlyniad, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y gweithgarwch hwn ar wella safonau disgyblion. Yn ogystal, nid yw arweinwyr wedi gweithredu ar wella gwendidau pwysig eraill fel medrau llythrennedd Cymraeg disgyblion, yn enwedig medrau llafar y disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol er mwyn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach; er enghraifft, mae disgyblion yn cael eu hannog i fwyta ystod o fwydydd iach fel rhan o'r cinio ysgol. Mae gan aelodau'r corff ddealltwriaeth addas o brif gryfderau'r ysgol a rhai o'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae aelodau'r is banelau, gan gynnwys y panel staffio, cyllid, iechyd a lles a chwricwlwm yn cyfarfod yn rhithiol i drafod materion pwysig sy'n codi ac yn rhoi cymorth ac arweiniad priodol i'r pennaeth pan fydd angen. Ers cychwyn y pandemig, mae'r corff llawn yn cyfarfod yn rhithiol i drafod blaenoriaethau strategol yr ysgol. Ar adegau, maent yn gweithredu fel ffrind beirniadol wrth herio'r pennaeth am safonau. Gwneir hyn trwy holi cwestiynau addas yn seiliedig ar ddata am gynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw aelodau'r corff ar hyn o bryd yn cyflawni eu rôl yn ddigon cadarn nac yn cyfrannu'n ddigon strategol i wella ansawdd y darpariaeth a safonau disgyblion.

Mae'r pennaeth wedi dyrannu cyllid yn briodol i gyflogi aelod o staff dros dro i weithio gyda disgyblion hŷn yr ysgol i wella eu medrau darllen Cymraeg. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ychydig o fedrau disgyblion. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol gynllun strategol i wella llythrennedd Cymraeg disgyblion, yn enwedig eu medrau llafar. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar allu bron bob un disgybl i gyfathrebu yn Gymraeg yn hyderus.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod addas o gyfleoedd i staff fynychu cyrsiau a hyfforddiant sy'n cysylltu â rhai o flaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae'r athrawon wedi mynychu hyfforddiant ynglŷn â sut i ddylunio cwricwlwm sy'n ymateb i ofynion y cwricwlwm

newydd i Gymru ac mae staff blynyddoedd is yr ysgol wedi cael hyfforddiant ar gyfoethogi ardaloedd allanol yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw targedau rheoli perfformiad y staff addysgu yn ddigon miniog nac yn ymateb yn bwrpasol i brif feysydd gwella'r ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/01/2023